*Huw Ethall*

## Gweddi'r Pasg

Ein Duw Sanctaidd a thrugarog, nid arbedaist dy Fab dy hun, ond ei draddodi i farwolaeth trosom ni oll. Dwg ni at droed croes Calfaria i weld dy gariad rhyfeddol tuag atom yng Nghrist Iesu. Mawrygwn dy enw sanctaidd am i ti droi tywyllwch Golgotha yn oleuni i ni; am i ti droi unigrwydd Iesu ar y pren yn sicrwydd na fyddwn ni yn unig byth mwy, ac am i ti droi ei glwyfau yn foddion i'n hiacháu. Meddianna ni â meddwl yr hwn a ddaeth i'n plith fel gwas ac a fu'n ufudd hyd angau. Dyro i ni ei lawenydd ef yn barhaus. Amen.

***O Llyfr Gwasanaeth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg***